Cofnodion draft Cyngor 4.6.26 yn y Neuadd Llanbedr

Presennol

Eirwyn Thomas, Jane Taylor Williams, Helen Johns, Annwen Hughes, Gwynfor Owen. Kevin Titley, Luisse ar zoom.

Ymddiheuriadau

John Evans, Robin Ward. Nia Jones

Unrhyw Fuddiant – cais cynllunio safle cwn – Morfudd Lloyd Annwen Hughes.

Cadw y cais cynllunio yn fyw. A newid amodau. Dim gwrthwynebiad.

Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. Angen addasu yr un saesneg cyn anfon at Delyth I roi ar y we.

Gair gan y Cadeirydd yn croesawu pawb I'r cyfarfod a cyflwyno Peter 1 Plas Newydd I'r cyfarfod. I son am CCTV camerau.

Bod Peter yn cynnig I'r Cyngor osod camerau a r ei dy e f ger y bont. Diolchwyd iddo am y cynnig yma, a byddem yn cysidro hyn pe bae arian ar gael, fel bod camera yn gwynebu y bont a hefyd ffordd Mochras. Eglurodd Eirwyn y Cadeirydd ein bod yn cychwyn gyda gwaith ar y Wenallt, ac ein bod mewn sefyllfa yn awr i wneud hynny.

Mae hefyd yn cadw top y bont – never cut yn daclus a diolchwyd iddo am ei waith gwirfoddol.

Peth anhawster efo' gwasanaeth hybrid eto heno ma, ond roedd gwaith wedi ei wneud gyda newid hub y Neuadd, hyn wedi achosi peth trafferth. Bod Gwynfor Owen wedi prynu reclun microphone a camera tebyg i'r un sydd gan yr Hen Lyfrgell yn Harlech.

Adroddiad Cyllid

Yn y Banc diwedd Mai = £32277.56

Sef gwariant =

| | |
|---|---|
| £50 | Delyth Williams gwefan |
| 150 + 35 + 40 | Iron Designs |
| £45 | Colin Evans cae plant |
| £300 | Hen fynwent |
| £100 | Mynwent Newydd |
| £30 | Gof Golofn |
| £600 | Audit Cymru (hen archwiliadau heb gael biliau amdanynt) |

| | |
|---|---|
| Mis Mehefin | £90 (£75 a 15 TAW) Parish online |

Materion yn Codi

1. Y Fynwent – nododd AH bod y gwair yn fler yn y fynwent Newydd yn ystod cynhebrwn diweddar. Bod tyrchod daear yn y fynwent Newydd.
2. Cae Chwarae – trio am grant solar panels. Tyrchod yn y cae chwarae hefyd. Cae chwarae yn edrych yn dda.

Hefyd yr archwiliad – a trip hazards gyda'r matiau diogelwch. Rhain yn codi o'r ymyl.

Cysylltu gyda Creative Play a G.L.Jones am bris i wella'r sefyllfa. A holi beth fyddai'r amserlen gwaith.

3. Llwybrau – neb wedi tendro am y rhain. Gofyn I Tom Edwards gan ei fod yn adnabod y tirwedd.
4. Zoom/hybrid gyda Gwynfor Owen. Wedi gweithio yn well na'r adegau eraill.
5. Gwahanol gwynion Cyngor Gwynedd –

a) Giatiau cattle grids Cwm Nantcol – Penisarcwm a Hendre Waelod - rhain yn mynd I gael sylw.
b) Riverside – drop kerb wedi malu
c) Toiledau – torri gwrychoedd er diogelwch.
d) Toiledau – holi am fwy o oleuadau yma – er mwyn gwella sefyllfa gwrthgymdeithasol
e) Yr arwydd ger y toiledau – y pren wedi pydru – angen ei newid. Y Clerc wedi cysylltu rai blynyddoedd yn ol parthed hyn at Swyddog o'r Parc Cenedlaethol Dafydd Prysor Jones – un o wardeiniaid y Parc. Ond ni wnaethpwyd unrhyw beth.
f) Man hole cover wrth Ger y Llan yn rhydd.

Mae rhain i gyd wedi cael eu cyfeirio at Cyngor Gwynedd 4.6.26

g) Kevin wedi cysylltu parthed draen ger y Garages Bryn Deiliog. Mater yma wedi ei wneud gan Dwr Cymru. Yn weddol handi.

6.Sefyllfa Sarn Hir – Ateb a gafwyd

Nodaf eich sylw am y sefyllfa ar A496 Sarn Hir. Trefnaf drafodaeth gyda Adran Trafnidiaeth fel eu bod yn cynnal asesiad pellach am y safle yma. Rydym wedi rhoi cais yn flaenorol am mesurau ar y rhan yma gyda Trafnidiaeth. 16 o ebrill

Trefnaf ein Arolygwr ymweld ar sefyllfa ar Ffordd Rhiw Garth Goch a byddwn trefnu unrhyw waith angenrheidiol gyda ein Gweithlu.

Byddwn anfon eich sylw am y llwybr at y Talwrn Bach a'r Halt at Adran Llwybrau Cyhoeddus i'w asesu a threfnu unrhyw waith clirio.

Gobeithiaf fod hyn yn eich diweddaru.

7.GWASANAETH SUL Y COFIO – newidiadau I'r gwasanaeth hwn. Dangoswyd rhaglen ar gyfer y Sul yn Nhachwedd. Diweddaru hwn o bosib. Mae 2 raglen gan y Cyngor. Nodwyd hefyd mae gwasanaeth Cyngor a'r Gymuned yw hwn ac nid gwasanaeth British Legion. Gormod o waith addasu yn y Cyngor, angen trefnu noson arwahan i hyn. Heb benodi diwrnod ar gyfer hyn. Angen ychwanegu enwau y rhai fu farw ar Moel Ddu, enw yr un sydd wedi ei gladdu yn mynwent Moreia.

Bod Andy Collins RAF o Porthmadog hefyd yn arfer dweud rhywbeth yn y gwsanaeth.

8. Code wi fi Neuadd wedi newid.

Adroddiadau Cynghorwyr Sir

Cyngh Annwen Hughes

1. Cyflwr y fynwent Newydd – wedi son am hyn yn gynharach
2. Tim Tacluso yn dod I glirio o amgylch y toiledau a'r palmant.
3. Ffor yn Talsarnau yn cael ei thario.
4. Gwaith ar wal gynnal ger Cwm 'Rafon yn cael ei wneud.
5. Miri efo'r traffic ar y Bont yn Llanbedr – gwyliau'r banc.  Nododd JTW bod yn rhaid cadw swn er mwyn cael cyhoeddusrwydd parthed y ffordd liniaru.
6. Car gwyn yn parcio ger mynedfa yr Eglwys.  Rhwystro llif traffic.  Perthyn i Llenyrch. ? A bod gwaith adnewyddu yn cychwyn yn Llenyrch. Angen cysylltu efo Elliw PCO.

Cyngh Gwynfor Owen

1. Nododd nad yw Mabon ap Gwynfor yn gallu ymateb i ymholiadau parthed iechyd na'r ffordd liniaru.  Mae yn cyd weithio efo Elwyn Vaughn Aelod Seneddol Powys.  Rhaid iddynt fel aelodau y Cabinet gytuno efo pawb. 5 aelod arall o'r Blaid i gysylltu a hwy.

Bod gan Mabon 2 gyfeiriad e bost.

2. Ei fod wedi gwahodd Adam Price( Gweinidog Cabinet dros Fentergarwch, Cysylltedd ac Ynni) a Mark Hooper (dirprwy weinidog dros Drafnidiaeth) i Lanbedr. Ond heb glywed yn ol ganddynt hyd yma.
3. Cofio bod cystadleuaeth am arian 4 cynllun yn y Gogledd –<br>Pont Mon,  Trawsfynydd, Ysgol Bangor, Ffordd Llanbedr.
4. Angen pwyso ar Liz Saville Roberts parthed sefyllfa Aerospace Llanbedr
5. Ei fod ef yn Gadeirydd Pwyllgor Rheilffordd y Cambrian.

MATERION ERAILL

JTW – Traffic yn gyrru yn enwedig tractorau a treilars.  Cysylltu efo Prifweithredwr Cyngor Gwynedd.

KT – yn nodi bod arwydd Huchenfeld ffordd Pensarn yn brysur ddiflannu o dan dyfiant.  Angen tacluso cyn iddynt ddod draw yma yn ystod yr Wyl Gwrw yn mis Medi.

Asesiad risg – cae chwarae gyda'r bin mawr gwyrdd.  Angen holi am gost bin du cyffredin a'r gost o wagio.  Cysylltu efo Steffan Jones.

GO – bydd tyllau ffordd Cwm Bychan yn derbyn sylw.

GO – beth yw sefyllfa loriau casglu biniau ail gylchu yn Pentre Gwynfryn?  Angen rhoi pwysa arnynt.

JTW – baw ar hyd y ddwy ochr o'r ffordd o Pentre Gwynfryn i'r Penref.  Cysylltu efo Cyngor Gwynedd.